

## Gwrandawriad Mater Penodol 1 (ISH1): Cwmpas y Datblygiad Arfaethedig

### Pwyntiau Gweithredu Gwrandawriad

Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (EN010137).

Camau gweithredu yn deillio o **ISH1** a gynhaliwyd **ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024**.

	Gweithred	Parti	Dyddiad Cau
1	Ailedrych ar (Memorandwm Esboniadol) EM a sicrhau bod pwrpas ac effaith pob darpariaeth yn cael eu hesbonio'n llawn. Dylai'r cyfiawnhad fod yn gymesur â'r newydd-deb/ddadl. Nid yw cynseiliau o DCOau eraill a wnaed yn gyfiawnhad digonol ynddo'i hun.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 1
2	Atodiad EM i egluro sut mae'r paramedr ardal sgubo yn y Gofynion yn atal y nifer fwy o dyrbinau talach rhag cael eu hadeiladu.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
3	Adolygu a yw'r holl egwyddorion gosodiad a nodir yn Nhabl 3.7 o [APP-050] wedi'u diogelu'n briodol yn y DCO neu'r DML. Ystyried cynhyrchu dogfen egwyddorion gosodiad annibynnol y mae'n rhaid i Amod 18(1)(a) gydymffurfio â hi.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
4	Edrych yn fanwl ar y diffiniad o ddatblygiadau cysylltiedig pellach (tudalennau 48 a 49 o dDCO [PDA-003] ar hyn o bryd) i: <ul style="list-style-type: none"> <li>- tynhau'r drafftio a sicrhau diffiniad cywir a chyfyngiad o'r gwaith;</li> <li>- dileu dyblygu rhwng gwaith datblygu cysylltiedig pellach a gwaith ategol; a</li> <li>- diweddarau cyfeiriadau at effeithiau sylweddol newydd neu sylweddol wahanol yn y dDCO ac unrhyw achosion eraill o gyfyngu ar waith yn ôl y sefyllfa waethaf yn y ES (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 1 (gwaith ategol))</li> </ul>	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
5	Adolygu drafftio Gofyniad 23 yn sgil y drafodaeth yn ISH1 a sicrhau y darllenir ar draws Atodlen 12 ynghylch ffioedd ar gyfer cyflawni Gofynion a ddiwygir wedyn.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
6	Adolygu Memorandwm Esboniadol mewn perthynas â Gofyniad 1 – Terfynau Amser ac ymhelaethu ar y rhesymeg drosto.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2

	Gweithred	Parti	Dyddiad Cau
7	Ystyried a oes angen drafftio diwygiedig i dDCO mewn perthynas â Gofyniad 1 yn benodol mewn perthynas â diffinio achosion a sut y byddai'r ymgwymerwr yn hysbysu partion bod Gofyniad 1(2) yn cael effaith.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
8	Adolygu Atodlen 14 y dDCO mewn perthynas â'r diffiniad o gychwyn gweithgareddau morol trwyddedig a'i berthynas â'r dogfennau amlinellol a nodir yn Rhan 1(1) ohoni.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
9	Cyflwyno enghreifftiau o strwythur dangosol cynllun cam sy'n ofynnol o dan Ofyniad 4.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 1
10	Diweddarau amserlen lliniaru a monitro [APP-196] trwy nodi'n union sut y byddai mesurau'n cael eu sicrhau gan dDCO/DML ac ystyried a allai'r rhestr fod yn ddogfen ardystiedig yn y dDCO.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
11	Ailgyflwyno fersiwn 2 o Ddogfen Egwyddorion y Drwydded Forol (MLPD) [PDA-005] yn dangos newidiadau wedi'u tracio yn erbyn fersiwn 1.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 1
12	Ar gyfer unrhyw fersiynau o'r MLPD yn y dyfodol, yr Ymgeisydd i farcio newidiadau o'r fersiwn flaenorol ac os nad yw'r rhesymeg dros unrhyw newidiadau yn amlwg, esbonio'r rhesymeg drostynt.	Ymgeisydd	Parhaus
13	Ymgeisydd i ystyried a ellid cynnwys darpariaeth yn y DML (ac asedau trawsyrru Trwydded Forol (ML)) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgwymerwr hysbysu'r awdurdod trwyddedu cyn cychwyn ynghylch a yw Gwaith 1c) a d) yn cael ei adeiladu o dan y DML neu asedau trawsyrru ML.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
14	Rhestr o unrhyw faterion drafftio DML na chytunwyd arnynt eto gan CNC TTM ar Ddyddiad Cau 3 – Golau traffig Coch/Ambr/Gwyrdd i nodi pwysigrwydd pob un o'r materion sy'n weddill.	CNC TTM	Dyddiad Cau 3
15	Ystyried darparu siâp darluniadol yn Nhabl 3 y DML i amlinellu'r cyfesurynnau y mae'n rhaid lleoli'r gweithgareddau morol trwyddedig a nodir ym mharagraff 2.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 2
16	Ychwanegu diffiniad o Gyfansoddion Adeiladu Dros Dro (TCC) yn Erthygl 2 o'r dDCO a diweddarau'r disgrifiad o'r Gwaith arfaethedig yn Atodlen 1 y dDCO i egluro cwmpas y gwaith mewn TCCs.	Ymgeisydd	Dyddiad Cau 1